YR ATODLEN

## Manylion ychwanegol ynglŷn â rhai ceisiadau

## Ceisiadau a wneir o dan Ddeddf 2004

*Ceisiadau sy'n ymwneud â gorchmynion rheoli interim a therfynol*

**22.**—(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i gais o dan adran 102(4) o Ddeddf 2004 (cais gan ATLl am awdurdod i wneud gorchymyn rheoli interim).

(2) Y dogfennau penodedig yw—

(a) copi o'r gorchymyn drafft;

(b) datganiad o'r materion sy'n berthnasol i ystyriaeth y tribiwnlys o—

(i) pa un a yw'r amod iechyd a diogelwch yn adran 104 o Ddeddf 2004 wedi ei fodloni; a

(ii) i ba raddau y cydymffurfiwyd ag unrhyw god ymarfer cymwys a gymeradwywyd o dan adran 233 o Ddeddf 2004; a

(iii) pan fo'r ATLl yn gofyn am ymdrin â'r cais fel mater brys o dan reoliad 10, datganiad sy'n rhoi manylion digonol i alluogi'r tribiwnlys i ffurfio barn ynglŷn ag a yw'n ymddangos bod yr amgylchiadau eithriadol a grybwyllir ym mharagraff (3) o'r rheoliad hwnnw yn bodoli.

(3) Yr ymatebydd penodedig yw person perthnasol yn ôl diffiniad “relevant person” ym mharagraffau 8(4) a 35 o Atodlen 6 i Ddeddf 2004.